## Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

*Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004*
*Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (Rheoliad 16)*
*Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (Rheoliad 25)*
*Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Crymu) (Diwygiedig) Rheoliadau 2015*
*Deddf yr Amgylchedd 1995*

**Hysbysiad o Fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig**

**Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031**

Ar 6ed o Chwefror, 2019, mabwysiadodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) diwygiedig ar gyfer ardal Parc Cenedlaethol Eryri. Y CDLl a fabwysiadir fydd y cynllun datblygu ar gyfer ardal Parc Cenedlaethol Eryri a bydd yn sail ar gyfer penderfyniadau ar gynllunio defnydd tir yn yr ardal hon.

Mae copïau o'r CDLl mabwysiedig, argymhellion y sawl a benodwyd i gynnal yr archwiliad annibynnol, yr adroddiad ar yr arfarniad o gynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr adroddiad amgylcheddol), yr adroddiad ymgynghori a datganiad mabwysiadu sy'n nodi sut y rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad amgylcheddol ac ati, ar gael i'w harchwilio'n rhad ac am ddim yn Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yn Abermaw, Bethesda, Blaenau Ffestiniog, Dolgellau, Penygroes, Tywyn, Porthmadog, Y Bala, Cerrigydrudion, Llanrwst, Llanfairfechan, Penmaenmawr, Conwy ac yng Nghanolfan Croeso'r Awdurdod ym Metws y Coed yn ystod oriau agor arferol. Maent hefyd ar gael ar wefan yr Awdurdod www.eryri.llyw.cymru/ldp

Bydd copïau o'r CDLl, gan gynnwys ei fap cynigion, ar gael i'w prynu trwy gysylltu â'r Awdurdod.

Fe ddaeth y CDLl yn weithredol pan gafodd ei fabwysiadu, h.y. 6ed o Chwefror, 2019 Gall unrhyw un sy'n tybio iddo gael cam gan y CDLl ac sy'n dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd ar y sail nad yw o fewn y grymoedd a gyflwynwyd gan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 neu na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad o'r Ddeddf honno neu unrhyw reoliad a wnaed oddi tani yn gysylltiedig â mabwysiadu'r CDLl, wneud cais o fewn chwe wythnos o 14eg o Chwefror, 2019 i'r Uchel Lys o dan Adran 113 o Ddeddf 2004.

Mae gwybodaeth bellach ar gael o www.eryri.llyw.cymru neu ffoniwch 01766 770274 a gofynnwch i siarad â rhywun yn y Tîm Polisi Cynllunio.

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
**Swyddfa'r Parc Cenedlaethol**
**Penrhyndeudraeth**
**Gwynedd**
**LL48 6LF**

## Snowdonia National Park Authority

*Planning and Compulsory Purchase Act 2004*
*The Environmental Assessment of Plans and Programmes (Wales) 2004 (Regulation 16)*
*The Town and Country Planning (Local Development Plan) (Wales) Regulations 2005 (Regulation 25),*
*The Town and Country Planning (Local Development Plan) (Wales) (Amendment) Regulations 2015*
*The Environment Act 1995*

**Notice of Adoption of a Revised Local Development Plan**

**Eryri Local Development Plan 2016-2031**

On February 6th, 2019, Snowdonia National Park Authority adopted a revised Local Development Plan (LDP) for the Snowdonia National Park area. The adopted LDP will form the development plan for the Snowdonia National Park area and will be the basis for decisions on land use planning in this area.

Copies of the adopted LDP, the recommendations of the person appointed to hold the independent examination, the sustainability appraisal report (incorporating the environmental report), the consultation report and the adoption statement indicating how the environmental report etc. has been taken into account are available for inspection free of charge at the National Park Office, Penrhyndeudraeth, at public libraries in Barmouth, Bethesda, Blaenau Ffestiniog, Dolgellau, Penygroes, Tywyn, Porthmadog, Y Bala, Cerrigydrudion, Llanrwst, Llanfairfechan, Penmaenmawr, Conwy and at the Authority's Information Centre in Betws y Coed during normal opening times. They are also available on the Authority's website at www.snowdonia.gov.wales/ldp.

Copies of the LDP, including its proposals map, will be available for purchase by contacting the Authority

The LDP became operative on its adoption, i.e. on February 6th ,2019.

A person aggrieved by the LDP who desires to question its validity on the ground that it is not within the powers conferred by Part 6 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 or that any requirement of that Act or any regulation made under it has not been complied with in relation to the adoption of the LDP, may, within six weeks from 14th February 2019, make an application to the High Court under Section 113 of the 2004 Act.

Further information is available from www.eryri.llyw.cymru or phone 01766 770274 and ask to speak to someone in the Planning Policy Team.

**Snowdonia National Park Authority**
**National Park Office**
**Penrhyndeudraeth**
**Gwynedd**
**LL48 6LF**